# Mentor

Tystysgrif Addysg i Raddedigion

The Open University
Y Brifysgol Agored
Wales Cymru

# Cynnwys


| | |
|---|---|
| Am y Rôl | 3 |
| Nodweddion allweddol | 4 |
| Cyfrifoldebau allweddol | 4 |
| Sgiliau a Phrofiad | 6 |


The Open University
Y Brifysgol Agored
Wales Cymru

# Am y Rôl

Mae'r mentor pwnc/cyfnod yn cefnogi'r darpar athro o ddydd i ddydd yng nghyd-destun eu pwnc Uwchradd neu gyfnod cynradd. Byddant yn cefnogi darpar athrawon i gynllunio addysgu, gwerthuso ac asesu dysgu mewn ffordd raddedig a blaengar. Byddant yn darparu adborth ffurfiannol rheolaidd ar addysgu trwy arsylwi gwersi ac yn ymgymryd â rhai arsylwadau gwersi ffurfiol. Mae Mentoriaid, gyda chefnogaeth y Cydlynydd Ysgol, hefyd yn darparu dyfarniad asesiad crynodol fel rhan o'r Adroddiad Ymarfer Dysgu diwedd modiwl. Maent yn rhan bwysig o'r gadwyn gyfathrebu rhwng y myfyriwr, y Tiwtor Cwricwlwm a'r Tiwtor Ymarfer. Rhaid bod gan y Mentor wybodaeth am y safonau addysgu proffesiynol a rhaid iddo allu dehongli agweddau arnynt er mwyn asesu'r myfyriwr yn eu herbyn a chyfleu hyn yn glir i'r darpar athro.

Rhaid i'r Mentor feddu ar yr awydd i ddatblygu darpar athro, mwynhau'r heriau sy'n codi o'r rhyngweithiadau hyn a cheisio gwella eu harfer a'u gyrfa eu hunain mewn addysg. Rhaid bod y Mentor wedi ennill gwybodaeth ymarferol o'r ystafell ddosbarth yn y cyd-destun hwnnw a gallu cyfathrebu hyn yn cynorthwyo'r darpar athro i roi ei ddysgu ar-lein. Mae'r Mentor yn cefnogi'r darpar athro i roi ei ddysgu mewn cyd-destun yn yr ysgol ac yn deall ei rôl fel addysgwyr athrawon o fewn y model Partneriaeth. Mae'r Mentor yn deall y continwwm, rhwng mentora a hyfforddi, yn bennaf trwy fesur y cydbwysedd rhwng her a chefnogaeth a'r ddealltwriaeth bod y berthynas Mentor/Mentorai yn broses ddwyffordd. Dylai'r Mentor fod yn hawddgar a mabwysiadu rôl ffrind beirniadol.

# Nodweddion allweddol

- Darparu mentora effeithiol o ansawdd uchel o ddydd i ddydd ar gyfer darpar athrawon yn eu cyfnod neu bwnc.
- Darparu asesiad o brofiad ymarfer dysgu darpar athrawon yn yr ysgol.
- Cyfrannu at ddatblygu dull AGA ysgol gyfan, gan weithio o fewn egwyddorion Ysgolion fel Sefydliadau Dysgu.
- Rhannu arfer dda o fewn y rhwydwaith Mentoriaid ar draw ysgolion Partneriaeth a thu hwnt trwy gymryd rhan mewn digwyddiadau datblygu, trafodaethau fforwm a digwyddiadau cymedroli clwstwr.

# Cyfrifoldebau allweddol

Dylai **Mentoriaid** fod yn ymarferwyr profiadol o fewn eu cyfnod neu bwnc, gyda'r arbenigedd i gefnogi athrawon dan hyfforddiant (gweler y ffigur isod):




***Ffigur:*** *Rolau a chyfrifoldebau'r Mentor*

Bydd angen iddynt:

- Feddu ar wybodaeth a dealltwriaeth fanwl o weledigaeth Partneriaeth y Brifysgol Agored ar gyfer dysgu darpar athrawon a bod yn gyfarwydd â dulliau allweddol yn ogystal â phrosesau angenrheidiol, fel yr amlinellir yn y Canllaw ar Ymarfer Dysgu.
- Arsylwi ymarfer darpar athrawon yn rheolaidd fel rhan o'r asesiad o gynnydd tuag at y Safonau Addysgu ac Aweinyddiaeth Broffesiynol a darparu adborth crynodol ar gynnydd y darpar athro.
- Cwrdd yn aml â'r darpar athro ar gyfer sesiynau mentora wedi'i hamserlennu i adolygu cynnydd y darpar athro a nodi targedau ar gyfer datblygu.
- Darparu a chydlynu ystod eang o gyfleoedd ffurfiannol i ddarpar athrawon i gefnogi datblygiad gwybodaeth ac ymarfer addysgeg o fewn pwnc/cyfnod.
- Darparu strwythur i brofiad ymarfer dysgu darpar athro trwy gyfryngu'r defnydd Weithgareddau Ymarfer Dysgu ffurffiannol a darparu cyfleoedd ar gyfer trafodaeth feirniadol a myfyriol gyda'r darpar athro ar y gweithgareddau.
- Hwyluso a chefnogi darpar athrawon i gymryd rhan mewn astudiaeth gwersi ac ymchwil ar raddfa fach yn yr ysgol.
- Ysgrifennu ffurflen Adolygu Ymarfer trwy e-bortffolio'r darpar athro.
- Ysgrifennu Adran A o'r Adroddiad Ymarfer Dysgu trwy e-bortffolio'r darpar athro.
- Darparu arsylwi/ymyrraeth ychwanegol yn unol â'r Fframwaith Cymorth i Fyfyrwyr, lle bo angen.
- Darparu cefnogaeth fugeiliol a lles i'r darpar athro.
- Monitro ac adolygu, ar y cyd gyda'r darpar athro, datblygiad sgiliau gwrando, darllen, ysgrifennu a llafaredd y myfyriwr yn y Gymraeg. Yn ogystal, cefnogi'r

darpar athro i ddatblygu sgiliau Cymraeg y dysgwyr. Nodwch, efallai bydd angen cymorth staff eraill yn yr ysgol i gefnogi'r agwedd hon.

- Gweithio gyda'r Bartneriaeth i nodi cryfderau a meysydd i'w datblygu wrth sy'n ymwneud ag ymarfer darpar athrawon a mentora effeithiol.
- Cymryd cyfrifoldeb am eich datblygiad proffesiynol ym maes AGA, cymryd rhan mewn digwyddiadau dysgu proffesiynol ar-lein ac wyneb yn wyneb.
- Gwneud defnydd effeithiol a chyfrannu at adnoddau dysgu'r Bartneriaeth a derbyn y wybodaeth ddiweddaraf wrth gyfathrebu rheolaidd.

# Sgiliau a Phrofiad

- Athro cymwys sy'n cael ei gydnabod am ymarfer hynod effeithiol o fewn ei gyfnod/pwnc mewn ysgol bartner gyda'r gallu i fynegi damcaniaeth ymarfer ei hun.
- Gwybodaeth a dealltwriaeth o egwyddorion Addysg Gychwynnol Athrawon a dealltwriaeth o sut mae oedolion yn dysgu.
- Gwybodaeth a dealltwriaeth o gymhwyso'r Safonau Proffesiynol ar gyfer Addysgu ac Arweinyddiaeth.
- Dealltwriaeth gref o egwyddorion mentora a hyfforddi effeithiol.
- Yn gallu defnyddio cwestiynau pwerus sy'n cefnogi darpar athrawon i ddod yn ymarferwyr myfyriol sy'n gallu gweithio'n annibynnol yn y pen draw a ffynu yn y model addysgu newydd yng Nghymru.
- Meddu ar sgiliau i fod yn empathetig i'r darpar athro sy'n dechrau ei yrfa mewn addysg a rhoi adborth adeiladol sy'n briodol i'r cam hwn yn ei ddatblygiad.

- Bod yn agored ac yn barod i fyfyrio'n feirniadol ar eu harfer mentora eu hunain a dangos awydd i ddatblygu eu harfer eu hunain yn barhaus fel addysgwyr athrawon.
- Sgiliau cyfathrebu da, yn gallu gwrando a gyda'r gallu i roi adborth effeithiol i gydweithwyr ar wahanol gamau o'r continwwm dysgu proffesiynol.

The Open University
Y Brifysgol Agored
Wales Cymru